# System cludiant mewn planhigion

| | |
|---|---|
| BRYN | Edrych ymlaen at y gêm? |
| RHYS | Ydw, mae'n mynd i fod yn agos, ond dw i'n meddwl enillwn ni. |
| NICK | Wy'n disgwyl gêm dda heddiw bois. Bydd y Gleision yn eich rhacso chi.<br><br>Byddwn ni'n gwylio o'r bocs VIP gyda'r tocynnau arbennig 'ma! |
| BRYN | Grêt - rhwng Nick a'r system cludiant cyhoeddus, dw i'n amau na fydd heddiw'n ddiwrnod da, wedi'r cyfan! |
| ALFRED | Dadansoddi… Oeddet ti'n golygu "cludiant mewn planhigion"? |
| BRYN | Nagon Alfred, ni'n ceisio cyrraedd… |
| ALFRED | Mae planhigyn angen dŵr ar gyfer ffotosynthesis.<br><br>Wrth i ddŵr cael ei dynnu mewn drwy'r gwreiddiau, mae moleciwlau dŵr yn cael eu cludo drwy feinweoedd o'r enw sylem lan y coesyn at y dail.<br><br>Mae'r moleciwlau dŵr sy' dros ben yn cael eu danfon i'r stomata, sef mandyllau'r dail, ble maen nhw'n cael eu rhyddhau i'r atmosffer ac yn anweddu. Trydarthiad yw hyn.<br><br>Mae trydarthiad yn helpu cysoni lefelau dŵr planhigyn, gan reoli tymheredd. Yn bwysicach fyth, mae'r dŵr sy'n gadael y ddeilen yn achosi sugnedd sy'n helpu tynnu dŵr lan drwy'r gwreiddiau. Fel yfed trwy welltyn!<br><br>Ie, fel 'na!<br><br>Mae swcros a'r moleciwlau bwyd a gynhyrchir gan |


© Hawlfraint BBC

ffotosynthesis yn teithio i'r rhannau o'r planhigyn sy' angen egni. Mae meinweoedd o'r enw ffloem yn cludo'r swcros, y maetholion a moleciwlau bwyd eraill i'r ffrwyth a'r hadau i'w storio fel startsh yn ogystal ag i'r gwreiddiau sy' angen egni i amsugno'r dŵr. Mae'r ffloem yn cludo'r maetholion lan a lawr y planhigyn. Trawsleoliad yw hyn.

BRYN Diolch Alfred, helpodd hwnna basio'r amser.

RHYS Hei, mae'r diwrnod yn gwella!

NICK Wy'n gweud wrtho chi. Mae'r rhain yn docynnau VIP!


© Hawlfraint BBC